## Cynigion a Gwelliannau i'w Trafod ar 5 Tachwedd 2003

## Cynigion a gyflwynwyd ar 29 Hydref 2003

**Y Ddadl Fer - NDM1676 Christine Gwyther (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro);**
Gwychder Glan Môr - Y Wyddor Newydd o Reoli'r Arfordir yn Integredig

**NDM1674 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu ymdrechion Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod amcanion Cynllun Datblygu Cynaliadwy'r Cynulliad wedi'u cynnwys mewn gweithgareddau caffael ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru;

2. Yn croesawu gwaith Menter Gaffael Cymru â'n partneriaid yn y sector cyhoeddus i wneud cyfraniad arwyddocaol a sylweddol at ddatblygu cynaliadwy drwy eu gweithgareddau caffael; ac hefyd

3. Yn cefnogi'r camau a gymerir i fwrw ymlaen â'r agenda hon, gan gynnwys cyhoeddi canllawiau ar y polisïau gorau ar gyfer caffael yn gynaliadwy a sefydlu cyrsiau ar gaffael cynaliadwy.

*Cynhelir ymgynghoriad ar yr adolygiad o Gynllun Datblygu Cynaliadwy'r Cynulliad Cenedlaethol. Gellir gweld fersiwn gyda nodiadau o'r Cynllun drwy glicio ar y cysylltiad hwn:*

*http://www.wales.gov.uk/themessustainabledev/content/review/sustainable-dev-e.pdf*

*Gosodwyd Cynllun Datblygu Cynaliadwy Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a wnaed o Dan Adran 121 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, o dan y teitl "Dysgu Byw'n Wahanol", yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Tachwedd 2000.*

**NDM1675 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu ail Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru.

2. Yn nodi y bydd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn llunio ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru ac yn rhoi adroddiad ar hyn i'r Cynulliad Cenedlaethol erbyn 31 Ionawr 2004.

*Gosodwyd copi o ail Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru yn y Swyddfa Gyflwyno ac anfonwyd copi ohono drwy'r e-bost at yr Aelodau ar 29 Hydref 2003.*

## Gwelliannau a Gyflwynwyd ar 31 Hydref 2003

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu'r gwelliannau canlynol i gynigion:

**NDM1674**

**1. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Dileu pwynt 1 yn gyfan gwbl a rhoi yn ei le:

'Yn nodi ymdrechion Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod amcanion Cynllun Datblygu Cynaliadwy'r Cynulliad yn cael eu cynnwys mewn gweithgareddau caffael ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru, ond yn gresynu ei bod wedi methu â gwneud unrhyw gynnydd gwirioneddol i roi amcanion datblygu cynaliadwy ar waith.'

**2. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu'r cynnig yn gyfan gwbl a rhoi yn ei le:

'Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi ymdrechion Llywodraeth Cynulliad Cymru i hyrwyddo amcanion Cynllun Datblygu Cynaliadwy'r Cynulliad a'u cynnwys mewn gweithgareddau caffael ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru;

2. Yn nodi'r gwaith y mae Menter Gaffael Cymru yn ei wneud â'n partneriaid yn y sector cyhoeddus i wneud cyfraniad cadarnhaol at ddatblygu cynaliadwy drwy eu gweithgareddau caffael; ac

3. Yn cefnogi'r camau a gymerir i fwrw ymlaen â'r agenda hon, gan gynnwys cyhoeddi canllawiau ar bolisïau gorau ar gyfer caffael yn gynaliadwy a sefydlu cyrsiau ar gaffael cynaliadwy ond yn pryderu na chafwyd unrhyw gynnydd sylweddol yn y maes hwn.

**3. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gydweithio â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) i hyrwyddo prosiectau enghreifftiol ar gyfer caffael bwydydd lleol yn y sector cyhoeddus a'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (CCNC).'

**4. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i baratoi canllawiau priodol ar reolau tendro cystadleuol mewn perthynas â chaffael cynaliadwy lleol.'

**5. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn galw ar y Gweinidog i ystyried rhoi dyletswydd ar Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (CCNC) ac awdurdodau lleol i lunio adroddiadau blynyddol ar y cynnyrch lleol y maent wedi'i gaffael.'

**6. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn cydnabod bod caffael bwydydd lleol yn y sector cyhoeddus yn ffordd hollbwysig o gynorthwyo'r nifer fawr o ffermydd teuluol bach sydd yn y sector amaethyddol yng Nghymru'.

**NDM1675**

**1. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn mynegi pryder ynghylch y ffaith nad yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cymryd unrhyw gamau i neilltuo mwy o arian ychwanegol yn benodol i roi Strategaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc ar waith.'

**2. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn mynegi pryder ynghylch y nifer fawr o blant sy'n parhau i fyw mewn tlodi yng Nghymru'.

**3. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gyflwyno safbwyntiau'r Comisiynydd Plant mewn perthynas â'r Mesur Ymddygiad Gwrthgymdeithasol i Lywodraeth San Steffan.'

**4. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gychwyn trafodaethau â Llywodraeth San Steffan er mwyn rhoi mwy o swyddogaethau statudol i'r Comisiynydd Plant.'